Glastir – Opsiynau'r Elfen Cymru Gyfan

Yr opsiynau canlynol yw'r opsiynau sydd ar gael i ffermwyr i ennill mwy na'r trothwy o bwyntiau ar gyfer ymuno ag elfen Cymru Gyfan Glastir.

Mae'r manylion hyn yn dal i fod o dan ystyriaeth y Comisiwn Ewropeaidd.

Rhif	Opsiwn
1	**Creu coridor sy'n cynnwys plannu coed a llwyni.** Rhaid plannu'r coed a'r llwyni mewn coridor o leiaf 2m o led. Plannwch res ddwbl am yn ail o lwyni brodorol (o stoc leol), gyda 7 planhigyn bob metr. Rhaid codi ffens bob ochr i'r coridor 1.5m o'i chanol (h.y. 3m rhyngddynt) er mwyn creu ymylon o borfa arw.
2	**Creu coridor sy'n cynnwys clawdd a phlannu coed a llwyni.** Rhaid plannu'r coed a'r llwyni mewn coridor o leiaf 2m o led. Rhaid i'r clawdd fod o leiaf 0.75m o uchder a 0.75m o led. Plannwch res ddwbl am yn ail o lwyni brodorol (o stoc leol), gyda 7 planhigyn bob metr. Rhaid codi ffens i gadw stoc draw bob ochr i'r coridor 1.5m o'i ganol (h.y. 3m rhyngddynt) er mwyn creu ymylon o borfa arw.
3	**Creu coridor bywyd gwyllt. Sefydlu rhimyn o goed:** Creu coridor bywyd gwyllt 5-15m o led o goed gan blannu 1600 o goesynnau coed o stoc frodorol yr hectar, gyda ffens bob ochr i'r coridor i gadw stoc draw.
4	**Amodau syml ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr)** Ar gyfer yr opsiynau hyn, rhaid cydymffurfio â'r canlynol: Bydd y berth o leiaf 1.5m o uchder a 1.5m o led. Peidiwch â thrin y tir sydd o fewn 2m i ganol y berth, na rhoi gwrtaith, tail na chwynladdwr arno. Os ydy'r berth ar glawdd, mesurwch uchder y berth o frig y clawdd. Mewn unrhyw flwyddyn galendr, peidiwch â thocio mwy na 50% o hyd y berth sydd yn yr opsiwn. Peidiwch â

	thorri'r un darn o berth mewn blynyddoedd dilynol. Peidiwch â thorri na phlygu perth yn ystod tymor nythu'r adar (1 Mawrth – 31 Awst). Gadewch i goed ifanc dyfu'n goed aeddfed yn y berth, bob 20-70 metr. Peidiwch â sianelu dŵr sy'n llifo oddi ar wyneb y tir na gadael i dda byw sathru ar hyd ymyl y berth. Gallai perthi llai fod yn rhan o'r opsiwn cyn belled â'u bod wedi tyfu i'r uchder a'r lled gofynnol erbyn diwedd blwyddyn 3.
5	**Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr)** Mae'r opsiwn hwn ar gael os ydy dwy ochr y berth o dan eich gofal. Yn ogystal â'r amodau syml ar gyfer rheoli perth (gweler uchod), rhaid cadw hefyd at yr amodau rheoli canlynol: Cadwch y berth at uchder a lled sy'n nodweddiadol o'r dirwedd leol, ond ddim llai na 2m o uchder (ac eithrio os ydy hi'n cael ei phlygu fel rhan o gylch rheoli rheolaidd). Peidiwch â thorri'r berth fwy nag unwaith bob 3 blynedd galendr, a pheidiwch â thorri mwy na thraean o'ch perthi bob blwyddyn oni bai'ch bod yn plygu'r berth neu'n bwriadu plygu'r berth.
6	**Codi ffens ddwbl 3m o led bob ochr i berth/gwrych bylchog,** Adfer perthi bylchog trwy godi ffens ddwbl 3 m o led (1.5m o ganol y berth bob ochr iddi). Plannwch lwyni brodol (o stoc leol) yn y bylchau, 7 planhigyn y metr. Cewch blygu'r berth cyn ffensio bob ochr iddi. Rhaid i'r ffens allu cadw da byw draw. Perth fylchog yw ffin draddodiadol, heb fod yn llai na 20m o hyd rhwng corneli cae gydag o leiaf 25% o'i hyd heb lwyni perthi traddodiadol yn tyfu ynddi. Rhaid tynnu ffotograff cyn llofnodi'r cytundeb a'i ddangos i staff Llywodraeth y Cynulliad pan ofynnir amdano yn ystod cyfnod y cynllun. Rhaid ichi gadw hefyd at yr amodau syml ar gyfer rheoli perth (opsiwn 4).
7a	**Creu coridor ar un lan nant ar dir wedi'i wella** *Bydd perchennog y tir yn gyfrifol am un lan y nant.* Rhaid ffensio'r llain am gyfnod y cytundeb a'i adael i aildyfu yn unol â chanllawiau'r cynllun. Dylid codi ffens bob ochr i'r nant o leiaf 3.5m o lan y dŵr. Rhaid cadw

	stoc allan. Rhaid rheoli'r tir heb ddefnyddio calch, gwrtaith anorganig nac organig (gan gynnwys tail buarth) a rhaid peidio â'i drin na'i aredig na'i ddraenio. Peidiwch â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Os gwelwch glymog Japan neu Jac y neidiwr yn tyfu neu'n ymledu i'r coridor, RHAID gofyn i AyrA am gyngor a gweithredu ar y cyngor hwnnw.
7b	**Creu coridor ar ddwy lan nant ar dir wedi'i wella** *Bydd perchennog y tir yn gyfrifol am ddwy lan y nant.* Rhaid ffensio'r llain am gyfnod y cytundeb a'i adael i aildyfu yn unol â chanllawiau'r cynllun. Dylid codi ffens bob ochr i'r nant o leiaf 3.5m o lan y dŵr. Rhaid cadw stoc allan. Rhaid rheoli'r tir heb ddefnyddio calch, gwrtaith anorganig nac organig (gan gynnwys tail buarth) a rhaid peidio â'i drin na'i aredig na'i ddraenio. Peidiwch â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Os gwelwch glymog Japan neu Jac y neidiwr yn tyfu neu'n ymledu i'r coridor, RHAID gofyn i AyrA am gyngor a gweithredu ar y cyngor hwnnw.
8	**Parhau i reoli coridor ar lan nant** Rhaid cynnal ffensys am gyfnod contract Glastir. Gellid plannu'r llain os oes angen hynny, yn unol â chanllawiau'r cynllun. Rhaid cadw stoc allan. Rhaid rheoli'r tir heb ddefnyddio calch, gwrtaith anorganig nac organig (gan gynnwys tail buarth) a rhaid peidio â'i drin na'i aredig na'i ddraenio. Peidiwch â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Os gwelwch glymog Japan neu Jac y neidiwr yn tyfu neu'n ymledu i'r coridor, RHAID gofyn i AyrA am gyngor a gweithredu ar y cyngor hwnnw.
9a	**Creu coridor ar un lan nant ar dir wedi'i wella a phlannu coed** *Bydd perchennog y tir yn gyfrifol am un lan y nant.* Rhaid ffensio'r llain am gyfnod y cytundeb a'i adael i

	aildyfu yn unol â chanllawiau'r cynllun. Dylid codi ffens bob ochr i'r nant o leiaf 3.5m o lan y dŵr. Rhaid cadw stoc allan. Dylid plannu'r coridor â choed glan-afon brodorol (gweler y canllawiau am y rhywogaethau a ganiateir) ac yn ddelfrydol, dylech ddefnyddio stoc frodorol. Dylech blannu ar raddfa o 30 o goed bob 100m. Bydd angen plannu coed newydd yn lle coed sy'n methu. Rhaid rheoli'r tir heb ddefnyddio calch na gwrtaith anorganig nac organig (gan gynnwys tail buarth) a pheidiwch â'i drin na'i aredig na'i ddraenio. Peidiwch â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Os gwelwch glymog Japan neu Jac y neidiwr yn tyfu neu'n ymledu i'r coridor, RHAID gofyn i AyrA am gyngor a gweithredu ar y cyngor hwnnw.
9b	**Creu coridor ar ddwy lan nant ar dir wedi'i wella a phlannu coed** *Bydd perchennog y tir yn gyfrifol am ddwy lan y nant.* Rhaid ffensio'r llain am gyfnod y cytundeb a'i adael i aildyfu yn unol â chanllawiau'r cynllun. Dylid codi ffens bob ochr i'r nant o leiaf 3.5m o lan y dŵr. Rhaid cadw stoc allan. Dylid plannu'r coridor â choed glan-afon brodorol (gweler y canllawiau am y rhywogaethau a ganiateir) ac yn ddelfrydol, dylech ddefnyddio stoc frodorol. Dylech blannu ar raddfa o 30 o goed bob 100m. Bydd angen plannu coed newydd yn lle coed sy'n methu. Rhaid rheoli'r tir heb ddefnyddio calch na gwrtaith anorganig nac organig (gan gynnwys tail buarth) a pheidiwch â'i drin na'i aredig na'i ddraenio. Peidiwch â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Os gwelwch glymog Japan neu Jac y neidiwr yn tyfu neu'n ymledu i'r coridor, RHAID gofyn i AyrA am gyngor a gweithredu ar y cyngor hwnnw.
10	**Troi tir âr sydd â safleoedd archaeolegol yn borfa barhaol** Codwch ffens o gwmpas y safle i'w wahanu oddi wrth dir âr a chreu tir pori. Dylech bori neu ladd y borfa fel na fydd yn fwy na 15cm. Gofalwch fod y ffens o leiaf 5m o'r safle archaeolegol. Wrth baratoi'r tir, tyrchwch gyn lleied ag y medrwch (ei

	rotofatio yn lle ei aredig lle medrwch) heb ei dddraenio na thyrchu'r is-bridd. Dylech ddrilio lle medrwch a dewis cymysgedd priodol o hadau. Dylech drin y tyfiant o dro i dro tra'i fod yn cydio i rwystro chwyn a phrysg.
11	**Adfer perllan draddodiadol** Rhaid bod o leiaf un goeden o'r berllan wreiddiol ar ôl. Llenwch unrhyw fylchau trwy blannu mathau traddodiadol o goed afalau, gellyg, ceirios ac eirin. Rhaid eu plannu ar naill ai wreiddgyff safonol neu led-safonol. Rhaid wrth fwlch o 10 metr fan leiaf rhwng pob un, sef y bylchiad traddodiadol. Amddiffynnwch goed newydd trwy osod pyst iddynt bwyso arnynt a llewys coed. Siapiwch y coed trwy eu tocio. Gadewch i lain las dyfu o dan y coed at uchder amrywiol yn ystod y tymor tyfu. Rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn llai na 7cm ac o leiaf 20% fod yn fwy na 7cm er mwyn i blanhigion allu blodeuo ac i greu cynefin mwy amrywiol. Rheolwch y tyfiant trwy naill ei bori neu ei dorri. Ewch â deunydd swmpus o'r safle. Peidiwch â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Cadwch unrhyw goed sydd ar y safle eisoes. Siapiwch y coed trwy eu tocio. Tociwch hen goed i'w hadfer yn goed cynhyrchiol ond gan gadw peth hen bren marw ar y coed. Torrwch bren drwg allai effeithio ar y cnwd ffrwythau neu sy'n peri difrod i'r goeden. Os ydy pren pwdr yn creu perygl, rhaid ei dorri a'i bentyrru mewn lle lled-gysgodol yn y berllan ar gyfer ffwng / pryfed. Peidiwch â llosgi pren rydych wedi'i dorri oni bai ei fod wedi'i heintio. Tynnwch ffotograffau o ddeunydd heintiedig a'u cadw.
12	**Creu perllan newydd ar dir wedi'i wella** Mae'r amod hwn wedi'i gyfyngu i dir wedi'i wella. Plannwch fathau traddodiadol o goed afalau, gellyg, ceirios ac eirin. Rhaid eu plannu ar naill ai wreiddgyff safonol, lled-safonol a llwyn gyda bwlch o 10 metr fan leiaf rhwng pob un, sef y bylchiad traddodiadol. Amddiffynnwch goed newydd trwy osod pyst iddynt bwyso arnynt a llewys coed. Siapiwch y coed trwy eu tocio. Gadewch i lain las dyfu o dan y coed at uchder amrywiol yn ystod y tymor tyfu. Rhaid i o leiaf 20% o'r

	borfa fod yn llai na 7cm ac o leiaf 20% fod yn fwy na 7cm er mwyn i blanhigion allu blodeuo ac i greu cynefin mwy amrywiol. Rheolwch y tyfiant trwy naill ei bori neu ei dorri. Ewch â deunydd swmpus o'r safle. Peidiwch â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Rhaid pentyrru pren marw syrthiedig neu bren wedi'i docio mewn lle lled-gysgodol yn y berllan. Peidiwch â llosgi pren rydych wedi'i dorri oni bai ei fod wedi'i heintio. Tynnwch ffotograffau o ddeunydd heintiedig a'u cadw.
13	**Plannu coed brodorol unigol ar dir wedi'i wella.** Rhaid plannu coed llydanddail brodol yn unol â bylchiad traddodiadol tir parc. Rhowch lewys coed arnynt neu godwch ffensys i'w hamddiffyn rhag stoc,. Bydd angen plannu coed newydd yn lle coed sy'n methu.
14	**Ymrwymo i chwistrellu slyri** Am gyfnod y cytundeb, gwasgarwch slyri ar y daliad trwy ddefnyddio chwistrellydd neu system "trailing shoe" Ar gyfer ffermydd godro a gwartheg eraill yn unig sydd â lle i storio 100,000 litr neu fwy o slyri.
15	**Tir pori parhaol gydag ychydig iawn o fewnbynnau** Cadwch y tir dan borfa. Peidiwch â'i aredig, ei drin, ei dros-hau na'i ail-hau. Peidiwch â gwasgaru tail buarth nac unrhyw wrtaith arall (gan gynnwys gwrtaith anorganig). Peidiwch â rhoi porthiant atodol. Rheolwch y borfa trwy ei phori ac i godi tyfiant y llynedd. Gadewch i'r borfa dyfu at uchder amrywiol yn ystod y tymor tyfu. Rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn llai na 7cm ac o leiaf 20% fod yn fwy na 7cm er mwyn i blanhigion allu blodeuo ac i greu cynefin mwy amrywiol. Peidiwch byth â thorri'r borfa ac eithrio i reoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych a dail tafol mewn mannau penodol. Cewch dorri'r brwyn ar ôl 15 Gorffennaf. Peidiwch â'i rowlio na'i lyfnu rhwng 1 Ebrill a 31 Mai. Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
16	**Rheoli Gweundir yr Ucheldir** (Nodyn – Cynefin â

	chorlwyni a <50% yn laswelltir ar <50% yn fawn, neu ar hyn o bryd o dan amod rheoli TG adfer gweundir) Ar gyfer yr opsiwn hwn, rhaid cadw at y canlynol: Peidiwch â'i aredig, ei drin na'i ail-hau na phlannu coed. Yn y darn tir dan sylw, diogelwch y gwlyptiroedd sy'n barhaol wlyb gan gynnwys mawnogydd a mignenni eraill, a llaciau ar lethrau. Peidiwch â gosod draeniau tir newydd na newid nac addasu'r rhai sy'n bod eisoes na chodi mawn na gwaddod. Peidiwch â rhoi porthiant atodol. Ni chaniateir llosgi ond yn unol â'r rheoliadau llosgi a'r cod llosgi grug a phorfa. Peidiwch â gwasgaru gwrtaith organig nac anorganig, tail, calch na slag. Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano. Peidiwch â gadael i'r lefel stocio fynd dros: 0.4 uned da byw (UDB/ha) Ebr-Meh 0.2 UDB/ha Gorff-Medi 0.1 UDB//ha Hyd-Maw Peidiwch â'i adael i ostwng o dan: 0.1 UDB//ha Ebr-Meh 0.05 UDB/ha Gorff-Medi
17	**Rheoli Cyforgors** (Cynefin â chorslwyni a <50% yn laswelltir a >50% yn fawn)**.** Ar gyfer yr opsiwn hwn, rhaid cadw at y canlynol: Peidiwch â'i aredig, ei drin na'i ail-hau. Peidiwch â gosod draeniau tir newydd na newid nac addasu'r rhai sy'n bod eisoes na chodi mawn na gwaddod. Peidiwch â rhoi porthiant atodol. Peidiwch â llosgi. Peidiwch â gwasgaru gwrtaith organig nac anorganig, tail, calch na slag. PEIDIWCH â phlannu coed Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano. Peidiwch â gadael i'r lefel stocio fynd dros: 0.1 uned da byw (UDB/ha) Ebr-Medi 0.01 UDB/ha Hyd-Maw Peidiwch â'i adael i ostwng o dan: 0.05 UDB/ha Ebr-Medi
18	**Rheoli Glaswelltir Mynydd** (Cynefin gyda >50% yn laswelltir neu redyn)

	Ar gyfer yr opsiwn hwn, rhaid cadw at y canlynol: Peidiwch â'i aredig, ei drin na'i ail-hau. Yn y glaswelltir, diogelwch y gwlyptiroedd sy'n barhaol wlyb gan gynnwys mawnogydd a mignenni eraill, a llaciau ar lethrau. Peidiwch â gosod draeniau tir newydd na newid nac addasu'r rhai sy'n bod eisoes na chodi mawn na gwaddod. Peidiwch â rhoi porthiant atodol. Dim llosgi. Peidiwch â gwasgaru gwrtaith organig nac anorganig, tail, calch na slag. Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano. Peidiwch â gadael i'r lefel stocio fynd dros: 0.4 uned da byw (UDB/ha) Ebr-Medi 0.02 UDB/ha Hyd-Maw Peidiwch â'i adael i ostwng o dan: 0.2 UDB/ha Ebr-Medi
19	**Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel** Cadwch y cynefin yn borfa a brwyn trwy ei bori. Peidiwch â'i drin, ei dros-hau, ei aredig, ei ddraenio na'i ail-hau. Cewch dorri'r brwyn mewn caeau sy'n fwy na 75% o frwyn. Torrwch ddim mwy na thraean o'r darn brwynog ym mhob cae bob blwyddyn mewn cylchdro. Peidiwch â thorri rhwng 15 Mawrth ac 1 Awst. Cadwch y borfa fel bod 80% o'r glaswelltau (heb gynnwys brwyn) rhwng 5-30cm o uchder. Peidiwch â'i lyfnu na'i rowlio rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin. Peidiwch â rhoi porthiant atodol. Peidiwch â gwasgaru gwrtaith organig nac anorganig, tail, calch na slag.
20	**Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad** Cadwch y prysg a'r eithin dan reolaeth trwy gadw gwartheg, defaid neu ferlod ar y waun. Peidiwch â'i gorbori. Peidiwch â gadael i'r lefel stocio fynd dros: 0.4 uned da byw (UDB/ha) Ebr-Meh 0.2 UDB/ha Gorff-Medi 0.1 UDB/ha Hyd-Maw Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano. Dim llosgi ar weunydd yr arfordir. Ni chaniateir llosgi ar weunydd llawr gwlad ond yn unol â'r rheoliadau llosgi a'r cod llosgi grug a phorfa. Peidiwch â rhoi porthiant atodol. Peidiwch â gwasgaru

	gwrtaith organig nac anorganig, tail, calch na slag. Peidiwch â gwneud gwaith draenio newydd nac addasu draeniau tir presennol.
21	**Rheoli morfeydd heli sy'n cael eu pori** Cynhaliwch y borfa trwy ei phori'n ysgafn gan wartheg, defaid neu ferlod neu drwy wahardd unrhyw bori. Peidiwch â defnyddio cerbydau heblaw mewn argyfwng. Peidiwch â chadw mwy na 0.4udb/ha unrhyw bryd rhwng 1 Mawrth a 15 Gorffennaf. Peidiwch â rhoi porthiant atodol. Peidiwch â gwasgaru gwrtaith organig nac anorganig, tail, calch na slag. Peidiwch ag agor draeniau. Peidiwch â gwneud gwaith draenio newydd nac addasu draeniau tir presennol. Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
22	**Cynnal gweirglodd sy'n bod eisoes** Peidiwch â gadael anifeiliaid pori ar yr weirglodd cyn 15 Mai. Rhaid ei chau rhag anifeiliaid pori am o leiaf 10 wythnos. Peidiwch â'i lladd tan 15 Gorff mewn ALFf, 8 Gorff mewn ardal arall. Peidiwch â phori'r adlodd am o leiaf 4 wythnos ar ôl lladd gwair. Cadwch adlodd y weirglodd i dyfu nes bod 80% o'r borfa rhwng 5-15cm o daldra. Cynhaliwch y borfa heb ddefnyddio gwrtaith o unrhyw fath heblaw am dail buarth am yn ail flwyddyn. Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
23	**Gadael darnau bychain o dir wedi'i wella mewn corneli caeau i droi'n borfa arw neu'n brysgwydd.** Yn opsiwn ar dir wedi'i wella os nad oes nodweddion archaeolegol. O leiaf 0.24ha am bob 30 ha o dir wedi'i wella. Hynny yw 0.8% o'r holl dir wedi'i wella. Codwch ffens i gadw stoc allan. Peidiwch â'i dorri na'i drin mewn unrhyw ffordd allai'i rwystro rhag troi'n dir garw. Peidiwch â rhoi porthiant atodol arno. Peidiwch â gwasgaru gwrtaith organig nac anorganig, tail, calch na slag. Peidiwch â gwneud gwaith draenio newydd nac addasu draeniau tir presennol.
24	**Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi'i wella** Yn opsiwn ar dir wedi'i wella os nad oes nodweddion archaeolegol. Tynnwch y ffens rhwng y coed a'r cae a

	chodi ffens newydd ar y cae 6m o'r ffin bresennol i gadw stoc allan. Peidiwch â'i dorri na'i drin mewn ffordd a allai rhwystro'r olyniaeth. Peidiwch â gwasgaru gwrtaith organig nac anorganig, tail, calch na slag.
25	**Rheoli twyni tywod** Cynhaliwch y llystyfiant trwy adael i wartheg, ceffylau neu ddefaid ei bori'n ysgafn ar lefel stocio heb fod yn fwy na 0.6udb/ha. Peidiwch â rhoi porthiant atodol. Peidiwch â gwasgaru gwrtaith organig nac anorganig, tail, calch na slag. Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
26	**Ymyl o borfa arw** Ni ddylai'r opsiwn hwn fod yn rhan o gylchdro. Sefydlwch ymyl o borfa arw rhwng 2m-8m o led wrth ymyl cnwd ŷd neu wreiddgnwd. Mae'n dderbyniol i'r tir y mae'r ymyl yn ffinio ag ef fod yn borfa unwaith mewn cylchdro o 2-5 mlynedd. Ni ddylid pori'r ymyl ar unrhyw adeg. Cewch dorri'r borfa yn y flwyddyn gyntaf ond ddim cyn 1 Awst. Peidiwch â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Rhaid rheoli'r tir heb galch, gwrtaith anorganig nac organig, tail na slag.
27	**Ymyl o gnwd gwyndwn** Sefydlwch ymyl o wndwn rhwng 2m-8m o led. Rhaid i'r cnwd gydio cyn 15 Mai (ydau, had llin a rêp), cyn 31 Mai (indrawn) a chyn 1 Gorffennaf (gwreiddgnwd). Rhaid creu gwely had bob blwyddyn. Peidiwch â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Rhaid rheoli'r tir heb galch, gwrtaith anorganig nac organig, tail na slag. Peidiwch â'i dorri cyn 1 Awst.

28	**Cadw sofl dros y gaea'** Casglwch y gwellt ar ôl y cynhaeaf a chaniatáu aildyfiant naturiol o borfa a phlanhigion llydanddail. Peidiwch â gwasgaru slyri rhwng y cynhaeaf ac 1 Mawrth. Peidiwch â'i dorri cyn 15 Chwefror. Peidiwch â defnyddio'r ardal i storio tail. Peidiwch â defnyddio porthiant atodol. Rhaid peidio â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Peidiwch â'i aredig, ei drin na'i ddrilio cyn 1 Mawrth. Peidiwch â'i bori unrhyw bryd â mwy na 0.4udb/ha. Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
29	**Hau cnwd o dan ydau gwanwyn wrth gyrsiau dŵr** Yn opsiwn wrth gwrs dŵr wedi'i farcio ar fap Master OS 1:50,000 lle cafodd cnydau âr eu tyfu yn y cyfnod cyfeirio (2007-2010). Bydd y cnwd ŷd wedi cydio a chyn 15 Mai, heuwch borfa a chodlysiau oddi tano. Peidiwch â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Peidiwch â chynaeafu'r cnwd cyn 1 Awst a rhaid cadw stoc allan wedi hynny tan 15 Medi. Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
30	**Ydau neu chodlysiau heb eu sgeintio, wedi'u hau yn y gwanwyn** Bydd y cnwd wedi cydio erbyn 15 Mai. Peidiwch â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Peidiwch â'i gynaeafu cyn 1 Awst.
31	**Ydau heb eu sgeintio, wedi'u hau yn y gwanwyn gan gadw'r sofl dros y gaeaf.** Bydd y cnwd wedi cydio erbyn 15 Mai. Peidiwch â defnyddio chwynladdwyr (ac eithrio i sbot-chwynnu planhigion niweidiol). Peidiwch â'i gynaeafu cyn 1 Awst neu am 14 wythnos ar ôl ei hau. Casglwch y gwellt ar ôl y cynhaeaf a chaniatáu aildyfiant naturiol o borfa a phlanhigion llydanddail. Peidiwch â gwasgaru slyri

	rhwng y cynhaeaf ac 1 Mawrth. Peidiwch â'i dorri na defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr cyn 15 Chwefror. Peidiwch â'i aredig, ei drin na'i ddrilio cyn 1 Mawrth. Peidiwch â'i bori tan ar ôl ei gynaeafu ac wedyn â dim mwy na 0.4udb/ha. Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
32	**Plannu gwreiddgnydau heb eu sgeintio ar dir wedi'i wella.** Bydd y gwreiddgnwd wedi cydio cyn 1 Gorffennaf. Cewch ddefnyddio glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Paratowch y pridd trwy ei aredig, ei rotofetio neu ei lyfnu ag oged bigau neu ddisg. Peidiwch â'i ddrilio. Peidiwch â defnyddio chwynladdwyr eraill. Rhaid cadw stoc o'r tir tan 15 Hydref a pheidiwch â throi'r tir tan 1 Mawrth. Ar dir ger cwrs dŵr, rhaid wrth lain glustogi (o leiaf 2m o led) rhag i'r pridd gael ei olchi i'r cwrs dŵr. Mae'r safonau trawsgydymffurfio'n gofyn am 1m os ydy'r cwrs dŵr yn ffin. Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
33	**Sefydlu cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi'i wella** Yn opsiwn ar dir wedi'i wella yn unig. Paratowch wely had o leiaf 4m o led i'r cnwd gydio erbyn 15 Mai. Peidiwch â'i bori na'i dorri cyn 15 Mawrth y flwyddyn ganlynol. Bydd o leiaf 80% o'r cymysgedd hadau yn ydau, gyda'r gweddill yn fwstard, rêp neu lin. Peidiwch â'i defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Rhaid rheoli'r tir heb galch, gwrtaith anorganig nac organig, tail na slag. Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
34	**Talar o ŷd heb ei gynaeafu** Creu talar 3 – 6m o led o gnwd ŷd ar hyd ymyl cae ŷd a'i adael heb ei gynaeafu tan 1 Mawrth. Bydd y cnwd

	wedi cydio erbyn 15 Mai. Peidiwch â defnyddio chwynladdwr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol neu lysiau'r gingroen neu blanhigion goresgynnol fel clymog Japan, rhododendron neu Jac y neidiwr. Rhaid rheoli'r tir heb galch, gwrtaith anorganig nac organig, tail na slag.
35	**Creu pwll dŵr natur ar dir wedi'i wella a'i amgáu** Rhaid i'r pwll fod o leiaf 5mx5m ond dim mwy na 2ha o faint. Rhaid ffensio o leiaf 90% o'r pwll rhag stoc, o leiaf 5m o ymyl y dŵr. Ni ddylai da byw allu mynd at fwy na 10% o lan y pwll. Rhaid adeiladu'r pwll yn unol â'r cyfarwyddiadau technegol. Peidiwch â defnyddio'r ardal ar gyfer mynediad, porthi na storio. Ni chaniateir ynysoedd.
36	**Llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy'n bod eisoes mewn caeau** Ffensiwch y llain glustogi i gadw stoc allan, o leiaf 10m o lan y dŵr. Cewch dorri'r tyfiant ym 5ed flwyddyn y cytundeb. Peidiwch â defnyddio'r llain ar gyfer mynediad, bwydo na storio. Rhaid rheoli'r tir heb galch, gwrtaith anorganig nac organig, tail na slag.
37	**Hybu bridiau brodorol** I gydnabod rhinweddau bridiau brodorol sydd mewn perygl o farw allan a helpu i ddiogelu geneteg bridiau nodedig sydd wedi ymaddasu at amodau lleol. Bydd yr anifeiliaid wedi'u cofrestru fel rhai pedigri neu yn epil o waed pur y bydd modd olrhain eu tras. Pa fridiau sy'n gymwys: Bridiau brodorol / traddodiadol – Cymreig Bridiau brodorol / traddodiadol – Prydeinig Rhywogaethau dan sylw Gwartheg (godro a bîff) Defaid Ceffylau Mae rhestr lawn o fridiau cymwys i'w gweld wrth droed y ddogfen hon. Cewch eich talu am y tir y byddwch yn cadw brîd brodorol arno, hyd at 10ha. Bydd gofyn i ffermwyr gadw'r lefel stocio ofynnol gydol y flwyddyn. Caniateir eithriadau oherwydd mesurau rheoli milfeddygol anrhagweladwy.

38	**Blychau nythu/ystlumod newydd** I'w cynnal gydol cyfnod y cynllun, a'u hadnewyddu yn ôl y gofyn. Cyhoeddir y manylebau maes o law.
39	**Rheoli prysgwydd, coed ifanc a llystyfiant ymledol i ddiogelu nodweddion hanesyddol trwy eu torri at eu bôn a thrin y gwreiddiau yn y fan a'r lle** Rhaid torri'r llystyfiant at y bôn gan adael i'r gwreiddiau bydru yn y fan a'r lle. Peidiwch â phalu'r gwreiddiau Rhaid trin boncyffion â chwynladdwr cymeradwy yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Cewch ddefnyddio peiriannau llaw (e.e. llif cadwyn a thorrwr prysg). Cewch ddefnyddio cerbydau ar dir gwastad neu weddol wastad, cyn belled nad ydynt yn cael eu gyrru dros olion sy'n sefyll neu waith maen neu'n tyrchu'r ddaear. Rhaid mynd â'r gwrysg o'r nodwedd hanesyddol. Peidiwch â'i losgi ar y safle. Peidiwch â gwneud y gwaith hwn rhwng 1 Mawrth a 31 Awst Os oes angen, ailadroddwch y driniaeth i rwystro ailddyfiant yn y cyfnod dechreuol. Rheolwch y tir fel pe bai'n borfa trwy ei dorri neu ei bori. Peidiwch â gadael i'r borfa dyfu dros 15cm

RHESTR O FRIDIAU BRODOROL CYMWYS

GWARTHEG

Aberdeen Angus (Grddl[1])
Beef Shorthorn
Belted Galloway
Blue Albion
British White
Chillingham
Dairy Shorthorn (Grddl[1])
Devon
Dexter[2]
Galloway[3]
Gloucester
Guernsey
Guernsey (Ynys[4])

[1] Mae "Grddl" yn golygu anifeiliaid sydd wedi'u cofrestru fel rhai pedigri ac sy'n rhan o 'Boblogaeth Wreiddiol' y brîd hwnnw, fel arfer ar is-gofrestr 'gaeedig' ar wahân o lyfr buchesi cymdeithas y brîd.
[2] Bridiau brodol sydd mewn perygl yn y Deyrnas Unedig ac yng Ngweriniaeth Iwerddon
[3] Mae "Galloway" yn cynnwys Gwartheg Galloway Du, Gwyn, Melyn a Chefnwyn

Hereford
Hereford (Grddl[1])
Highland
Irish Moiled/Maol[2]
Jersey (Ynys[4])
Lincoln Red
Lincoln Red (Grddl[1])
Longhorn
Luing
Northern Dairy Shorthorn
Red Poll
Shetland
Sussex
Swona
Vaynol
White Park
Whitebred Shorthorn

DEFAID

Border Leicester
Boreray
British Milksheep
Cambridge
Castlemilk Moorit
Clun Forest
Cotswold
Defaid Balwen
Defaid Ceri
Defaid Llanwenog
Defaid Maesyfed
Defaid Mynydd Cymreig Du
Defaid Mynydd Cymreig y De
Defaid Torddu a Thorwen
Derbyshire Gritstone
Devon and Cornwall Longwool
Devon Closewool
Dorset Down
Dorset Horn
Greyface Dartmoor
Hampshire Down
Hebridean
Jacob
Leicester Longwool
Lincoln Longwool
Lonk
Manx Loghtan

[4] Mae "Ynys" yn golygu anifeiliaid sydd wedi'u cofrestru fel rhai pedigri ac sy'n rhan o boblogaeth yr 'Ynys' y brîd hwnnw, fel arfer ar is-gofrestr 'gaeedig' ar wahân o lyfr buchesi cymdeithas y brîd.

Meatlinc
Norfolk Horn
North Ronaldsay
Oxford Down
Portland
Ryeland
Shetland (SSS[5])
Shropshire
Soay
Southdown
Teeswater
Wensleydale
Whiteface Dartmoor
Whitefaced Woodland
Wiltshire Horn

CEFFYLAU

Cleveland Bay
Clydesdale
Dales
Dartmoor
Eriskay
Exmoor
Fell
Hackney
Highland
New Forest
Shetland
Shire
Suffolk
Merlod Mynydd Cymreig (Adran A lled-wyllt[6])

[5] Mae "SSS" yn dynodi'r 'Shetland Sheep Society' a'r anifeiliaid hynny sy'n cael eu cydnabod a'u cofrestru fel Defaid Shetland pedigri gan gymdeithas y brîd.

[6] Mae "Adran A lled-wyllt" yn cyfeirio at is-boblogaeth benodol o anifeiliaid pedigri sydd wedi'u cofrestru ar wahân yn llyfr gre'r brîd. Mae Adran A llyfr gre Cymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig yn rhestru'r merlod Mynydd Cymreig sy'n debygol o fod wedi'u hadnabod ar y prif ddogfennau cofrestru, y pasbortau ac yng nghofnodion cronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol â'r llythyren 'S' (gan gymryd lle'r hen 'F') i ddangos eu bod yn lled-wyllt ac yn rhan o Gynllun Gwella'r brîd.